Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adroddiad ar wasanaethau addysg yng

# Nghyngor Sir Ceredigion

**Canolfan Rheidol**
**Rhodfa Padarn**
**Llanbadarn Fawr**
**Aberystwyth**
**Ceredigion**
**SY23 3UE**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chyngor Sir Ceredigion

Mae gan Gyngor Sir Ceredigion gyfanswm poblogaeth o tua 71,500. Mae’r awdurdod lleol yn cynnal 14 adnodd meithrin o fewn ysgolion yn ogystal ag addysg mewn 20 cylch meithrin. Mae 36 ysgol gynradd, pedair ysgol uwchradd a un ysgol pob oed sy’n darparu addysg i ddisgyblion rhwng 3 ac 16 oed a dau ysgol pob oed sy’n darparu addysg i ddisgyblion rhwng 3 ac 19 oed. Mae'r awdurdod hefyd yn cynnal un uned cyfeirio disgyblion rhwng dau safle.

Dechreuodd y Prif Weithredwr yn ei swydd ym mis Medi 2017.

Yn ystod cyfnod yr arolygiad, roedd swydd y Prif Swyddog Addysg yn cael ei chyflawni drwy secondiad. Mae cyfrifoldeb am y Gwasanaeth Ysgolion a‘r Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes yn cael ei rannu rhwng dau Swyddog Arweiniol Corfforaethol. Mae Arweinydd y Cyngor wedi bod yn ei rôl ers Mai 2022 a dechreuodd yr Aelod Cabinet ar gyfer Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ym mis Mai 2022.

Cynhaliwyd arolygiad diwethaf yr awdurdod lleol yn 2013. Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi sefydlu partneriaeth â Chyngor Sir Powys, sef y Bartneriaeth Addysg Canolbarth Cymru (PACC), sy'n cefnogi gwelliant i’w hysgolion, wedi i gonsortiwm ERW ddod i ben.

Yn 2023-2024, mae cyllideb addysg net yr awdurdod lleol tua £76,568,000. Y gyllideb ysgol ddirprwyedig fesul disgybl yn 2023-24 yw £5,482, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef £5,386.

Mae arolygwyr yn ystyried ystod eang o wybodaeth am y boblogaeth leol wrth werthuso canlyniadau ac ansawdd gwasanaethau addysg. Maent yn ystyried y wybodaeth hon ochr yn ochr â gwybodaeth am y boblogaeth genedlaethol. Dyma rywfaint o'r wybodaeth fwyaf defnyddiol am blant a phobl ifanc Ceredigion:

- Dros gyfnod o dair blynedd, mae 17% o ddisgyblion rhwng 5 a 15 oed yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 23%
- Mae 39% o ddisgyblion 5 oed neu hŷn yn rhugl yn y Gymraeg, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 15%
- Mae 11% o ddisgyblion rhwng 5 a 15 oed yn dod o leiafrifoedd ethnig, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 14%
- Mae cyfanswm o 130 o blant yng ngofal yr awdurdod lleol
- Mae gan 15% o ddisgyblion rhwng 5 a 15 oed anghenion dysgu ychwanegol
- Mae gan 3% o ddisgyblion 5 i 15 oed Saesneg fel iaith ychwanegol

## Crynodeb

Mae awdurdod Ceredigion wedi sicrhau darpariaeth addysgol sefydlog o safon uchel i ddysgwyr, a hynny dros gyfnod estynedig. Mae hyn yn bennaf oherwydd arweinyddiaeth gadarn; strategaethau ac uchelgeisiau clir a bwriadus; a chydweithio agos ymysg swyddogion yr awdurdod, aelodau etholedig, ysgolion a phartneriaid eraill. Mae gan yr awdurdod hanes da o gynnal a gwella ei ddarpariaeth a chyflawni deilliannau da i blant a phobl ifanc Ceredigion.

Mae trefniadau'r awdurdod o ran datblygu'r Gymraeg yn gryfder arwyddocaol, ble gwelir sawl agwedd o ragoriaeth ymhlith ei ddarpariaeth a'i arferion. Mae gwasanaethau addysg yr awdurdod lleol yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol a phresenoldeb da yn ei ysgolion, gan roi darpariaeth werthfawr ar waith i annog disgyblion i barhau i ymgysylltu ag addysg. Er hyn, mae'r awdurdod yn effro i'r heriau sy'n parhau o ran gwella presenoldeb i lefelau fel yr oeddent cyn y pandemig.

Mae'r awdurdod yn cefnogi ei ysgolion a'i leoliadau i wella addysgu ac arweinyddiaeth yn effeithiol. Mae gan ymgynghorwyr gwella'r awdurdod adnabyddiaeth gref o'u hysgolion a gwneir defnydd craff o ddata i herio a chefnogi ysgolion. Mae hyn yn nodwedd hynod gadarn a bwriadus. Mae gweledigaeth a darpariaeth gadarn ar gyfer bodloni anghenion disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae bod yn gynhwysol a darparu adnodd o fewn cymunedau lleol y disgyblion yn ymagwedd glodwiw o feddylfryd yr awdurdod. Mae amrediad o wasanaethau arbenigol buddiol i gefnogi ysgolion i ddiwallu anghenion dysgu disgyblion.

At ei gilydd, mae arweinwyr yn adnabod cryfderau  agweddau i'w gwella yn drwyadl ac mae eu modd o gynllunio a sicrhau gwelliant yn cael effaith amlwg, fel y gwelir o fewn sawl agwedd hynod gadarnhaol a gyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn.  Er hynny, mewn ychydig o agweddau, fel adnabod camau gweithredu i ysgolion a blaengynllunio a mesur effaith darpariaeth benodol, nid yw'r hunanwerthuso a'r cynllunio gwelliant bob amser yr un mor finiog.

## Argymhellion

A1 Parhau i wella presenoldeb o fewn ysgolion yr awdurdod

A2 Datblygu ymhellach prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella fel eu bod yn canolbwyntio ar yr effaith a gaiff gwasanaethau ar ddeilliannau

## Beth sy'n digwydd nesaf

Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu, dylai'r awdurdod lleol ddiweddaru ei gynlluniau i fynd i'r afael â'r argymhellion ac ystyried y diffygion a nodwyd trwy'r broses arolygu. Dylai'r awdurdod lleol ddiweddaru ei gynlluniau cyn pen tri mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu.

Bydd Estyn yn gwahodd y darparwr i baratoi astudiaeth achos ar ei waith mewn perthynas â datblygu’r Gymraeg, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Deilliannau

Nid ydym yn gallu darparu gwerthusiad llawn o ddeilliannau. Mae hyn oherwydd effaith pandemig COVID-19, a achosodd i arolygiadau o ysgolion a’r rhan fwyaf o ddarparwyr addysg eraill gael eu hatal o fis Mawrth 2020 hyd at fis Mawrth 2022. Mae hefyd o ganlyniad i’r diffyg data ar ddeilliannau y gellir ei gymharu dros gyfnod oherwydd bod y pandemig wedi achosi newidiadau i’r ffordd yr oedd cymwysterau’n cael eu dyfarnu ac nad oedd y data hwn yn cael ei gasglu dros gyfnod y pandemig. Roedd hyn hefyd yn effeithio ar y rhan fwyaf o’r data arall yr ydym yn ei ystyried wrth wneud gwerthusiadau, fel presenoldeb ysgol, gwaharddiadau ysgol a chyrchfannau dysgwyr ôl-16, ond, yn ddiweddar, rydym wedi dechrau derbyn y math hwn o ddata eto. Mae unrhyw werthusiadau sy’n dilyn yn darparu cyd-destun trwy adrodd ar ddeilliannau cyn y pandemig neu’n ymwneud â deilliannau mwy diweddar lle mae sail y dystiolaeth yn ddilys a dibynadwy.

Dros gyfnod, mae deilliannau arolygiadau ysgolion yng Ngheredigion yn gryf. Rhwng mis Medi 2017 a mis Mawrth 2020, arolygom 24 o ysgolion a lleoliadau. Mae hyn yn cynnwys 15 o ysgolion cynradd, dwy ysgol bob oed, un uned cyfeirio disgyblion a chwech o leoliadau meithrin nas cynhelir. Mewn llawer o’r arolygiadau hyn, barnwyd bod perfformiad yr ysgol neu sefydliad yn dda neu well. Barnwyd bod angen y lefelgweithgarwch dilynol  adolygiad gan Estyn ar un ysgol gynradd ac un ysgol bob oed a arolygwyd. Barnwyd bod angen gweithgarwch dilynol ar un lleoliad nas cynhelir. O ganlyniad i welliannau cyflym, tynnwyd y darparwyr hyn o’r categori gweithgarwch dilynol yn fuan wedi’r arolygiad craidd.

Ers mis Chwefror 2022, pan ailddechreuom ni gynnal arolygiadau ysgolion ar ôl y pandemig, mae 21 o leoliadau wedi eu harolygu. Mae hyn yn cynnwys 14 ysgol gynradd, tair ysgol uwchradd, a phedwar o leoliadau meithrin nas cynhelir. Nid oedd angen gweithgarwch dilynol ar yr un o’r rhain. Ym mhob un o’r arolygiadau hyn, barnwyd bod o leiaf llawer o’r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn neu well yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Barnwyd bod llawer o ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol hefyd yn gwneud cynnydd cadarn.

Cyn y pandemig, roedd perfformiad ysgolion uwchradd a phob oed Ceredigion yn y dangosyddion diwedd cyfnod allweddol 4 yn weddol debyg i’r hyn sy’n ddisgwyliedig. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd perfformiad disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn gyffredinol, yn uwch na’r cyfartaleddau cenedlaethol.

Yn ystod y cylch arolygu rhwng Medi 2017 a Mawrth 2020, roedd y gwerthusiadau ar les ac agweddau at ddysgu yn dda neu'n well ym mhob un o'r arolygiadau ysgolion. Yn yr arolygiadau sydd wedi'u cynnal ers i Estyn ailddechrau arolygiadau ysgolion yn 2022, mae dyfarniadau lles wedi bod yn gadarnhaol. At ei gilydd, nodwedd gyffredin o'r adroddiadau hyn yw bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda, ac mae bron pob un yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

Gwelwyd gostyngiad sylweddol mewn cyfraddau presenoldeb ysgolion ar draws Cymru o ganlyniad i'r pandemig COVID-19. Mae data mewnol yr awdurdod yn awgrymu bod presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ar gyfer y cyfnod 2022-2023 wedi codi o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r data sydd heb ei ddilysu yn dangos bod y tuedd hwn wedi ei gynnal eleni. Fodd bynnag, ar y cyfan, mae lefelau presenoldeb ysgolion yn parhau i fod yn is na chyn y pandemig. Nid oes gwaharddiad parhaol wedi bod yn yr awdurdod mewn dros ddeng mlynedd. Dros y tair blynedd hyd at 2022, roedd y gyfradd gwahardd tymor penodol yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o ran gwaharddiadau dros dro. Mae niferoedd y pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn isel.

Mae aelodau'r cyngor ieuenctid yn myfyrio'n gydwybodol ar faterion sydd o bwys i bobl ifanc yr awdurdod ac yn pennu camau gweithredu addas i fynd i'r afael â'r agweddau hyn. Mae ganddynt lefelau uchel o ddealltwriaeth o faterion cyfoes sydd yn dylanwadu arnynt o fewn yr awdurdod, ac maent yn lleisio eu barn ac yn dylanwadu'n effeithiol ar waith a syniadau'r awdurdod. Er enghraifft, bu iddynt gomisiynu ffilm i rybuddio am beryglon fêpio.

**Gwasanaethau addysg**

**Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cefnogi ei ysgolion a'i leoliadau i wella addysgu ac arweinyddiaeth?**

Mae gan Gyngor Sir Ceredigion weledigaeth gadarn ar gyfer ei gwasanaeth gwella ysgolion. Gweithia swyddogion yn effeithiol i geisio wireddu'r weledigaeth i sicrhau'r profiadau gorau posibl ar gyfer holl blant a phobl ifanc Ceredigion ac mae ffocws cryf ar ddatblygu dysgu, addysgu a safonau lles disgyblion. Mae'r awdurdod yn rhoi blaenoriaeth amlwg i ddatblygu capasiti arweinyddiaeth mewn ysgolion ac yn y gwasanaeth er mwyn ymateb i'r heriau recriwtio cenedlaethol. Mae'r strategaeth yn cynnwys y rhaglen dysgu proffesiynol, secondiadau a gweithgareddau'r tîm gwella ysgolion. Er enghraifft, mae gweithdai cyd-warantu ansawdd dysgu ac addysgu mewn ysgolion yn cynnwys cyfleoedd i arweinwyr gyfrannu ar sawl lefel.

Mae gan ymgynghorwyr cefnogi Ceredigion berthynas waith gefnogol a chadarnhaol ag ysgolion yr awdurdod. Maent yn cydweithio'n gynhyrchiol ag ysgolion gan ddefnyddio a dadansoddi ystod eang o wybodaeth a data i ddatblygu eu hadnabyddiaeth o'u hysgolion. Defnyddir y wybodaeth hon i lywio trafodaethau'r tîm gwella ysgolion, a ble nodir materion allweddol, cynigir cefnogaeth ragweithiol bwrpasol i ysgolion fynd i'r afael â'r materion hyn. Ar hyn o bryd, nid oes angen gweithgarwch dilynol ar ôl arolygiadau Estyn ar unrhyw ysgol o fewn yr awdurdod. Yn ogystal, dros gyfnod, nid oes yr un ysgol ble bu'n rhaid defnyddio hysbysiad cyn-rhybudd gan yr awdurdod.

Yn dilyn gwaith hunanwerthuso a myfyrio pwrpasol, mae'r gwasanaeth wedi dechrau addasu ei drefniadau er mwyn mireinio ei waith gwella ysgolion. O ganlyniad, mae'r gwaith i gryfhau'r gefnogaeth a'r her a gynigir i ysgolion trwy waith yr ymgynghorwyr cefnogi yn datblygu'n bwrpasol. Cynhelir cyfres o weithdai buddiol gydag ysgolion unigol i gaffael gwybodaeth am eu gwaith a chynnig cefnogaeth. Mae'r gweithdai hyn yn dilyn agendau cytûn sy'n ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae ymgynghorwyr hefyd yn rhoi cefnogaeth werthfawr i ysgolion wrth gyfrannu at weithgareddau cyd-warantu. Maent yn cefnogi prosesau hunanwerthuso fel cyd-

arsylwi ar wersi, cyd-graffu ar lyfrau, trafod gyda disgyblion a rhoi cymorth i ysgolion. . Ar y sail hon, maent yn ystyried effaith y ddarpariaeth ar safonau a lles disgyblion. Serch hyn, nid yw staff cefnogi bob amser yn adnabod camau gweithredu i'r ysgolion yn ddigon miniog. Yn yr achosion hyn, nid oes meini prawf llwyddiant digon pendant er mwyn ystyried llwyddiant y cymorth a roddir, yn enwedig o ran ei effaith ar safonau a lles dysgwyr.

Defnyddia'r awdurdod weithdrefnau priodol i ganfod blaenoriaethau ac anghenion dysgu proffesiynol staff mewn ysgolion. Cynigir cefnogaeth bwrpasol i staff ysgolion trwy waith ymgynghorwyr y gwasanaeth a phartneriaid ehangach. Darperir ystod werthfawr o gyfleoedd dysgu proffesiynol perthnasol trwy wefan 'Gweithredu Gwelliant' yr awdurdod. Ceir arlwy eang a chadarn i ddatblygu addysgeg ac asesu mewn ysgolion, gan gynnwys ystod gyfoethog o adnoddau a fideos safonol i fodelu addysgu da. Mae'r tîm gofal plant a'r sector nas cynhelir yn darparu cefnogaeth dysgu proffesiynol glodwiw i leoliadau. Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn greiddiol i waith y gwasanaeth gyda phwyslais cryf ar ddarparu adnoddau dwyieithog o ansawdd da. Mae'r awdurdod yn dechrau hwyluso cyfleoedd priodol i ysgolion weithio gyda'i gilydd fel clystyrau. Mae ystyriaeth fwriadus i sut i werthuso'r ddarpariaeth dysgu proffesiynol ac mae'n dechrau datblygu systemau a phrosesau i werthuso effaith dysgu proffesiynol ar safonau a lles disgyblion

Gweithia'r awdurdod yn bwrpasol mewn partneriaeth ag awdurdod cyfagos trwy Bartneriaeth Addysg Canolbarth Cymru (PACC) i ddarparu dysgu proffesiynol, er enghraifft drwy raglenni arweinyddiaeth a chefnogaeth ar gyfer athrawon newydd gymhwyso. Fel rhan o'r bartneriaeth, mae'r awdurdod yn dechrau datblygu cyfleoedd buddiol i ysgolion rannu arferion effeithiol trwy ddigwyddiadau 'Ehangu Gorwelion' ble mae cyfle i ysgolion ymweld â darparwr ble adnabuwyd arfer dda. Yn ogystal, mae cyfleoedd rhyngweithio gwerthfawr i arweinwyr pynciol mewn ysgolion uwchradd trwy rwydweithiau sirol. Hwylusir hyn yn effeithiol gan ymgynghorwyr cefnogi'r awdurdod. Mae'r awdurdod yn ymwybodol o'r angen i ddatblygu'r ddarpariaeth dysgu proffesiynol ymhellach ar gyfer ambell  bwnc uwchradd ac mae'n cynllunio'n fwriadus i ddiwallu'r anghenion hyn.

**Cameo**

Mae tîm data'r awdurdod yn darparu data cynhwysfawr am berfformiad disgyblion mewn arholiadau allanol, gan gynnwys sut maent wedi perfformio wrth ateb cwestiynau unigol. Defnyddir y data lefel eitem hon i lywio trafodaethau dadansoddol mewn cyfarfodydd rhwydweithiau pwnc ôl-14. Mae hyn yn galluogi arweinwyr pwnc i adnabod cryfderau a meysydd i'w datblygu ym mherfformiad disgyblion a thrwy hyn, ble o fewn yr awdurdod mae arferion cryf a pha agweddau ar yr addysgu sydd angen eu gwella. O ganlyniad, hwylusir rhannu arferion effeithiol a gwaith ysgol-i-ysgol buddiol.

Mae'r awdurdod lleol yn darparu arweiniad a chefnogaeth werthfawr i lywodraethwyr, gan gynnwys trwy fforwm i lywodraethwyr. Mae rhaglen dysgu proffesiynol bwrpasol ar gyfer datblygu llywodraethwyr fel cyfeillion beirniadol. Er enghraifft, cyfranna llywodraethwyr yn fwriadus at brosesau hunanwerthuso ysgolion, fel teithiau dysgu a chraffu ar waith disgyblion.

**Pa mor dda y mae gwasanaethau addysg yr awdurdod lleol yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol a phresenoldeb da yn ei ysgolion?**

Mae'r awdurdod lleol yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn ei ysgolion yn effeithiol. Mae gweledigaeth glir yr awdurdod, sydd wedi ei seilio ar sicrhau cynhwysiant, yn cael ei wireddu trwy gydweithio llwyddiannus ar draws gwasanaethau'r awdurdod a gydag asiantaethau allanol. Yn ogystal, mae perthynas weithio agos ac effeithiol rhwng yr awdurdod, yr ysgolion a'r uned cyfeirio disgyblion.

Mae staff yr awdurdod yn cydweithio ag ysgolion i gefnogi eu disgyblion yn effeithiol trwy hyfforddi staff i weithredu ymyraethau penodol. Er enghraifft, maent yn darparu hyfforddiant buddiol er mwyn sicrhau bod arbenigedd mewn cefnogi anghenion emosiynol disgyblion ar gael ym mhob ysgol. Yn ogystal, maent yn defnyddio technoleg yn hynod effeithiol i godi ymwybyddiaeth staff o'r profiadau sy'n gallu arwain at ymddygiadau heriol, maes o law. Mae'r Fforwm Lles ac Ymddygiad yn fodd effeithiol i staff allweddol rannu arferion ymysg ysgolion yr awdurdod. Yn ddiweddar, mae'r fforwm wedi dechrau sefydlu cysylltiadau â darparwyr ac arbenigwyr o du hwnt i'r awdurdod ac mae arweinwyr yn ystyried y wybodaeth wrth ddatblygu eu harfer. Maent yn cynnig cyfleoedd buddiol i arweinwyr a staff arsylwi arfer effeithiol, er enghraifft trwy ymweld â'r uned cyfeirio disgyblion.

Mae'r awdurdod yn darparu gwybodaeth i'r ysgolion mewn modd hygyrch sy'n eu galluogi i adnabod disgyblion all fod mewn risg o fod yn agored i niwed. Mae hyn yn cynorthwyo ysgolion i flaenoriaethu cefnogaeth ychwanegol yn yr ysgol, lle bo'n briodol. Pan fo angen cefnogaeth, mae camau clir a graddedig sy'n ddealladwy i'r holl randdeiliaid i dderbyn cymorth gan swyddogion cynhwysiad yr awdurdod. Mae'r swyddogion hyn yn darparu cefnogaeth estyn allan ddefnyddiol i ddatblygu medrau staff yn y lleoliadau prif lif. Er enghraifft, maent yn cydweithio â staff ysgolion i werthuso a mireinio'r gefnogaeth sydd ar gael i ddisgyblion sy'n mynychu darpariaethau Hafan o fewn ysgolion uwchradd. Mae'r disgyblion yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth fugeiliol hon sy'n cefnogi eu lles.

Mae gan yr awdurdod ystod dda o ddarpariaeth ychwanegol i hyrwyddo agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleusterau maethu mewn lleoliadau ledled yr awdurdod sy'n cynorthwyo disgyblion i ddatblygu medrau cymdeithasol priodol. Mae uned cyfeirio disgyblion llwyddiannus yn darparu profiadau gwerthfawr i ddisgyblion sydd wedi ei chael yn anodd ymdopi ag addysg prif lif. Mae staff yn gwerthuso effaith y ddarpariaeth ar gynnydd mewn hyder a lles y disgyblion tros gyfnod. Caiff pobl ifanc eraill fudd o fynediad at gwricwlwm amgen a ddarperir trwy gyfleuster Hyfforddiant Ceredigion Training yr awdurdod. Mae hyn yn annog disgyblion i barhau i ymgysylltu ag addysg tra'n cael cyfleoedd pwrpasol i gwblhau cyrsiau galwedigaethol achrededig. Mae hyn yn cyfrannu'n fuddiol at y nifer isel o bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg a hyfforddiant yn yr awdurdod.

Mae'r awdurdod yn rhoi pwyslais cryf ar bwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Mae'r tîm cynhwysiant yn defnyddio system rheoli gwybodaeth gynhwysfawr yr awdurdod yn fwriadus er mwyn adnabod disgyblion a grwpiau o ddysgwyr y mae eu presenoldeb yn peri pryder. Mae swyddogion yn gweithio'n effeithiol gyda staff ysgolion a gwasanaethau eraill i ymyrryd, lle bo'n briodol. Er enghraifft, gwneir defnydd effeithiol o'r gwasanaeth cwnsela mewnol er mwyn cefnogi lles disgyblion a datblygu eu parodrwydd i fynychu'r ysgol. Esiampl arall yw'r pecyn adnoddau a

baratowyd gan y tîm seicolegwyr addysg i gefnogi disgyblion sy’n osgoi’r ysgol ar sail emosiynol. Ers y pandemig, mae cyfraddau presenoldeb yn ysgolion yr awdurdod wedi gwella, er eu bod yn parhau i fod yn is na'r ffigyrau diwethaf a gyhoeddwyd cyn y pandemig yn y rhan fwyaf o achosion.

**Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cwrdd ag anghenion disgyblion ag ADY?**

Mae gan yr awdurdod weledigaeth glir ar gyfer cefnogi disgyblion sydd ag ADY mewn modd cynhwysol o fewn eu cymunedau lleol, gan amlaf. Cynigir y ddarpariaeth dysgu ychwanegol yn gwbl ddwyieithog ac mae hyn yn gryfder nodedig. Mae’r tîm ADY yn sicrhau bod anghenion unigol disgyblion yn flaenoriaeth yn eu gwaith ac mae cydweithio cadarn ar draws gwasanaethau yn sicrhau ymagwedd gydlynus a pherson-ganolog. Mae’r gwasanaeth yn llwyddo i gefnogi anghenion bron pob disgybl a dim ond ychydig iawn o ddisgyblion sy’n derbyn darpariaeth arbenigol tu allan i’r sir.

Mae’r awdurdod yn gwneud cynnydd da tuag at weithredu gofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg Cymru (2018), ac mae llawer o’r disgyblion sydd ag ADY wedi’u trosglwyddo i’r trefniadau newydd yn unol â’r amserlen weithredu genedlaethol. Trwy wefan y cyngor, gwefannau ysgolion unigol a’r platfform digidol ‘Canolfan Athrawon’, mae staff yn cyfathrebu’n dda ac yn rhannu gwybodaeth amserol ac yn ddwyieithog mewn ffordd hylaw i’r holl randdeiliaid. Mae nifer yr apeliadau i’r tribiwnlys yn brin, yn rhannol o ganlyniad i bartneriaethau a pherthnasoedd cryf â theuluoedd. Mae gan arweinwyr ADY brosesau amlasiantaethol cadarn er mwyn adnabod anghenion dysgu unigol yn fuan a sicrhau darpariaethau addas i ymateb i’r anghenion hyn. Er enghraifft, mae gwaith cadarnhaol drwy’r ‘Cynllun Cyfeirio’ yn sicrhau bod plant oed cyn-ysgol yn derbyn cymorth gwerthfawr ac yn pontio’n esmwyth i’r camau nesaf yn eu haddysg.

Trwy eu timau ymgynghorol ac allgymorth, mae’r awdurdod yn cynnig amrediad o wasanaethau arbenigol buddiol i gefnogi ysgolion i ddiwallu anghenion dysgu disgyblion. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o ddeunyddiau, hyfforddiant a chefnogaeth ar gyfer ysgolion. Mae’r tîm ADY yn gwrando ar lais a barn ysgolion a rhanddeiliaid ac yn cydweithio’n agos â phenaethiaid a’r cydlynwyr ADY i gytuno ar flaenoriaethau a rhaglenni hyfforddiant. Yn ddiweddar, maent wedi adnabod yr angen i gydweithio’n agosach â’r gwasanaeth cynhwysiant er mwyn adolygu eu darpariaeth i gefnogi disgyblion sydd ag anghenion ymddygiad dwys.

Mae’r awdurdod yn darparu canolfannau arbenigol ar draws y sir, yn bennaf ar safleoedd ysgolion, er mwyn darparu cymorth arbenigol i ddisgyblion sydd ag ADY mwy dwys a chymhleth. Mae gweithdrefnau cadarn er mwyn ymdrin â phob achos yn unigol a rheoli mynediad a symudiad rhwng darpariaethau yn effeithiol. Yn unol â gweledigaeth yr awdurdod, mae’r canolfannau’n cynllunio’n fwriadus i greu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion integreiddio â’u cyfoedion yn eu hysgolion prif ffrwd. Ar gyfer y disgyblion hŷn mwyaf dwys, mae’r cynllun integredig ‘Camu Mlaen’ yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddatblygu eu medrau annibynnol a’u paratoi ar gyfer symud i’r cam nesaf yn eu bywydau. Mewn ychydig iawn o feysydd, nid oes strategaeth ddigon clir na blaengynllunio digon bwriadus er mwyn darparu cefnogaeth arbenigol yn lleol i'r disgyblion sydd â'r anghenion mwyaf dwys.

Yn ddiweddar, mae'r tîm ADY wedi dechrau ailafael yn eu trefniadau monitro a chefnogi darpariaeth. Maent yn casglu a rheoli gwybodaeth drwy eu systemau canolog er mwyn gwirio cydymffurfiaeth a sicrhau cysondeb ar draws eu hysgolion. Er hyn, nid oes gan yr awdurdod drosolwg digon strategol wedi'i seilio ar weithgarwch sicrhau ansawdd manwl, sy'n canolbwyntio ar effaith er mwyn blaengynllunio gwelliant.

**Pa mor effeithiol yw trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer datblygu'r Gymraeg?**

Prif nod awdurdod lleol Ceredigion yw sicrhau bod disgyblion yn ddysgwyr dwyieithog hyderus. Mae'r strategaeth gorfforaethol yn gosod cyfeiriad pwrpasol i waith y Cyngor wrth ddatblygu'r Gymraeg, gan sicrhau bod yr iaith yn flaenllaw yng ngwaith bob adran. Mae swyddogion yn cydweithio'n effeithiol ar draws adrannau er mwyn gwireddu'r weledigaeth ar gyfer y Gymraeg. Rhoddir pwyslais ar y cynllun strategol corfforaethol i fynd i'r afael â datblygu'r Gymraeg a diwylliant Cymreig ar draws bob agwedd o fywyd yng Ngheredigion, gan ddefnyddio'r pedair thema: dysgu, byw, perthyn a llwyddo, fel sylfaen.

Nodwedd gref o waith yr awdurdod yw'r cydweithio llwyddiannus rhwng swyddogion yr adran diwylliant a thimau'r adran addysg i gefnogi'r Gymraeg a Chymreictod. Mae'r Cynllun Strategol y Cymraeg mewn Addysg (CSGA) yn uchelgeisiol ac yn glir o ran amcanion yr awdurdod i ddatblygu'r Gymraeg, ac mae swyddogion ar draws y gwasanaeth ysgolion ac adrannau eraill o'r awdurdod yn ymrwymo i wireddu'r amcanion a thargedau'r cynllun. Er enghraifft, mae'r tîm cefnogi lleoliadau meithrin nas cynhelir a dysgu sylfaen yn cydweithio ag arweinwyr ac ymarferwyr lleoliadau addysg gynnar a gofal cyfrwng Saesneg i ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn eu sefydliadau.

Mae swyddogion y gwasanaeth ysgolion yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd strategaethau ehangach yr awdurdod i gefnogi amcanion y CSGA. Er enghraifft, maent yn  defnyddio canfyddiadau'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant i flaengynllunio ar gyfer twf y Gymraeg mewn ardaloedd penodedig. Yn ogystal, defnyddir amrywiaeth o fforymau penodol yn fwriadus i drafod cynnydd yn erbyn y CSGA a datblygiad y Gymraeg ar draws Ceredigion, sy'n caniatáu i randdeiliaid leisio'u barn a chynnig syniadau ar gyfer y dyfodol

Mae'r awdurdod yn gwneud cynnydd arwyddocaol yn unol â'r llinell amser yn ei CSGA, gan gynnwys gosod sylfaen gadarn i blant tair oed i dderbyn addysg Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys newid cyfrwng iaith pum ysgol er mwyn ymateb i ddyhead uchelgeisiol yr awdurdod i sicrhau bod bob disgybl yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg hyd at saith oed.

**Ciplun**

Defnyddir arbenigeddau aelodau'r Tîm Cefnogi'r Gymraeg a'r adran diwylliant yn effeithiol iawn i gefnogi ysgolion sy'n newid cyfrwng iaith. Maent yn darparu datblygiad proffesiynol buddiol iawn i staff trwy eu gwefan, 'Câr-di-Iaith', yn ogystal â sicrhau cefnogaeth gynhaliol sy'n ymateb yn llwyddiannus iawn i anghenion penodol rhanddeiliaid yr ysgolion. Mae swyddogion yn cydweithio'n fwriadus â phartneriaid lleol fel Dysgu Cymraeg Ceredigion a Menter Iaith Ceredigion (Cered) i ddarparu cyfleoedd i rieni ddysgu'r Gymraeg a chymryd rhan mewn sesiynau creadigol hwylus. Mae hyn yn cyfrannu'n dda iawn at baratoadau i newid cyfrwng iaith dysgu sylfaen o fewn ysgolion cynradd Saesneg.

Rhoddir pwyslais cryf ar symud ysgolion ar hyd y continwwm iaith. Mae swyddogion yn defnyddio'u profiad a'r gwersi a ddysgwyd o ymgynghoriadau blaenorol yn synhwyrol i gefnogi'r broses hyn. Yn ogystal, mae tîm cefnogi'r Gymraeg yn darparu cefnogaeth ddwys i ddisgyblion ysgolion cynradd sy'n newydd i'r iaith, o fewn tair canolfan iaith. Yn yr un modd, maent yn darparu adnoddau a chyllid i gefnogi disgyblion sydd angen cymorth i ddysgu neu wella'u medrau iaith mewn ysgolion uwchradd Cymraeg. Nodwedd arwyddocaol iawn o waith y tîm cefnogi'r Gymraeg yw'r ystod o adnoddau arbennig maent yn eu creu er mwyn cynorthwyo athrawon a disgyblion i ddatblygu'u medrau. Er enghraifft, maent wedi cyhoeddi cyfres o dros gant o lyfrau darllen ac adnoddau i gefnogi disgyblion sy'n newydd i'r Gymraeg, yn ogystal â threfnu cynhadledd ac adnoddau buddiol trwy ymgyrch 'Datgloi Darllen' i ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol.

Cryfder nodedig o waith yr awdurdod yw'r gefnogaeth i ddisgyblion ADY sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal, mae swyddogion yn cydweithio'n effeithiol iawn â phartneriaid ac asiantaethau eraill i gefnogi rhieni sy'n addysgu eu plant yn y cartref. Er enghraifft, maent yn cydweithio â Theatr Felinfach i ddarparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ymuno â phrosiectau creadigol yn yr awyr agored, sy'n meithrin eu hymwybyddiaeth o ddiwylliant Cymreig a'r iaith Gymraeg.

Dros amser, mae gweithgareddau'r Siarter Iaith yn hyrwyddo'r Gymraeg yn llwyddiannus ac yn annog cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddefnyddio'r iaith tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Mae swyddogion yn cydweithio'n effeithiol â chydweithwyr a phartneriaid eraill i gefnogi'r gwaith hwn. Er enghraifft, mae'r gwasanaeth cerdd yn cydweithio ag ysgolion a phartneriaid eraill i gynnig cyngerdd yn nhref Aberteifi er mwyn hyrwyddo'r iaith, diwylliant a cherddoriaeth Gymreig.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinwyr yr awdurdod yn rhoi pwyslais amlwg ar sicrhau darpariaeth addysgol o'r radd flaenaf yng Ngheredigion. Mae'r weledigaeth hon yn cael ei chyfleu yng nghynllun Strategol Corfforaethol y Cyngor, sy'n cynnwys amcan ar 'ddarparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi pobl o bob oed i ddysgu'. Mae'r prif weithredwr, y cyfarwyddwr corfforaethol ac arweinwyr y gwasanaeth addysg yn gweithio'n effeithiol iawn fel tîm er mwyn cyflawni uchelgeisiau'r awdurdod. Gyda'i gilydd, maent yn cynnig arweinyddiaeth strategol gadarn sydd wedi sicrhau darpariaeth addysgol sefydlog o safon uchel i ddysgwyr, a hynny dros amser estynedig. Drwy'r arweinyddiaeth gadarn hon, mae gan yr awdurdod hanes da o

gynnal a gwella eu darpariaeth a chyflawni deilliannau da i blant a phobl ifanc Ceredigion.

Mae aelodau etholedig, gan gynnwys yr aelod cabinet a chadeirydd y panel craffu addysg, yn hyrwyddo'r weledigaeth yn bwrpasol a llwyddiannus. Mae gan y deilydd portffolio addysg adnabyddiaeth gref iawn o'r heriau a'r llwyddiannau ar draws y ddarpariaeth addysgol yn yr awdurdod. Mae'n ymgysylltu'n rhagorol â phartneriaid a rhanddeiliaid perthnasol, sy'n cynnwys ymweliadau rheolaidd â phob un o ysgolion yr awdurdod i wrando ar blaenoriaethau penaethiaid a staff. Mae'n angerddol dros addysg yng Ngheredigion ac yn arddel y weledigaeth yn glir. O ganlyniad, mae rhanddeiliaid fel penaethiaid ysgolion a llywodraethwyr yn hyderus bod arweinwyr yr awdurdod yn gwrando ar eu barn ac yn ystyried eu safbwyntiau wrth deilwra'r gwasanaethau er gwell.

Mae ansawdd y perthnasoedd y mae'r awdurdod lleol wedi eu datblygu gyda'i ysgolion a lleoliadau eraill yn golygu bod ymddiriedaeth gadarn iawn, yn ogystal â thrafodaethau aeddfed ynglŷn â heriau y mae'r gyfundrefn addysg yn eu hwynebu. Mae arweinwyr a swyddogion yr awdurdod yn cydweithio'n effeithiol iawn â phartneriaid allweddol er mwyn darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc Ceredigion.

Mae'r prif weithredwr, y deilydd portffolio, yr uwch swyddogion a'r aelodau etholedig yn deall yr heriau sy'n wynebu'r gwasanaeth addysg yn dda. Mae diwylliant o annog pawb i fyfyrio a rhoi sylw parhaus i heriau sy'n codi ac fe roddir bri ar arloesi a chanfod datrysiadau dyfeisgar i heriau sy'n benodol i'r awdurdod. Enghraifft o hyn yw'r ffordd y bu iddynt weithio'n agos gydag awdurdodau cyfagos er mwyn ffurfio Partneriaeth Addysg Canolbarth Cymru (PACC) i gydweithio ar rai agweddau i gefnogi a diwallu anghenion ysgolion, dysgwyr ac ymarferwyr ar draws Canolbarth Cymru.

**Ciplun**

Mae diwylliant o weithio'n greadigol a chyfarch heriau yn ddyfeisgar yn bodoli yn yr awdurdod, gydag ymatebion arloesol, ar adegau. Mae arweinwyr yn barod i dreialu syniadau newydd ac yn awyddus i greu sefydliad sy'n flaengar, pan geir materion pwysig sy'n cyd-fynd â'u blaenoriaethau craidd a'u hegwyddorion. Mae enghreifftiau da o'r arloesedd hwn yn cynnwys datblygu system fewnol ar gyfer olrhain gwybodaeth am ddisgyblion a'u hymateb cadarn a phwyllog i argyfwng y pandemig COVID-19. At ei gilydd, mae arweinwyr yn annog eu staff, ysgolion a phartneriaid allweddol i ddefnyddio eu cryfderau a'u harbenigedd i greu datrysiadau unigryw er mwyn deilio â materion lleol, sy'n arddangos egwyddorion a pharodrwydd arweinwyr i fentro a chymryd risgiau synhwyrol.

Yn ogystal â'r cynllun strategol corfforaethol, sy'n rhoi cyfeiriad clir a bwriadus i waith yr awdurdod, mae nifer o gynlluniau a strategaethau eraill sydd yn amlygu uchelgais yr awdurdod mewn meysydd pwysig. Er enghraifft, mae'r awdurdod yn cychwyn cael effaith gadarnhaol wrth fynd ati i gyfarch eu dyheadau o fewn y CYSGA. Mae cynlluniau a strategaethau synhwyrol hefyd ar waith sy'n amlygu bwriad yr awdurdod i leihau effaith tlodi ac anfantais.

Mae prosesau hunanwerthuso, monitro a sicrhau ansawdd wedi gwreiddio'n  dda ac mae cynnydd yn erbyn amcanion allweddol yn cael eu gwerthuso'n rheolaidd. Mae cynlluniau busnes strwythuredig ar bob lefel sy'n amlygu camau rhesymegol tuag at gyrraedd nodau'r strategaeth gorfforaethol. Fodd bynnag, nid yw'r mesurau yn erbyn rhai o'r cynlluniau hyn yn rhoi digon o ffocws ar effaith.

Mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu yn darparu craffu amserol ar nifer o faterion perthnasol sy'n wynebu addysg yn yr awdurdod, gan gynnwys cynigion sensitif yn ymwneud â threfniadaeth ysgolion ac ystod o wasanaethau cymorth i ysgolion. Mae'r hyfforddiant a chefnogaeth a ddarperir i'r aelodau yn eu galluogi i ddatblygu dealltwriaeth drylwyr o'r hyn sydd dan sylw ac yn ei dro yn eu galluogi i herio a dylanwadu ar benderfyniadau ac adnabod meysydd ffocws pellach. Mae swyddogion, a phartneriaid gwadd, yn darparu adroddiadau clir a defnyddiol i'r pwyllgor. Mae uwch swyddogion yn cynorthwyo'r pwyllgor ymhellach drwy ddarparu eglurder a gwybodaeth ychwanegol berthnasol yn ystod cyfarfodydd ac mewn cyfarfodydd cyn-craffu perthnasol.

**Ciplun**

Mae'r awdurdod yn croesawu ac yn ystyried yn ofalus farn rhanddeiliaid, megis penaethiaid, rhieni, plant a phobl ifanc a thrigolion, er mwyn atgyfnerthu eu dealltwriaeth o farn pobl ynglŷn ag ansawdd eu gwaith, ac yn arbennig felly er mwyn teilwra gwasanaethau i'r dyfodol. Enghraifft dda yw'r modd y mae'r awdurdod yn mynd ati'n  weithredol iawn i ganfod barn disgyblion a'u cynnwys mewn penderfyniadau. Mae'r prif weithredwr, yr uwch swyddogion a'r aelodau etholedig yn ymfalchïo mewn, ac yn annog, cyfraniad plant a phobl ifanc Ceredigion, ac o ganlyniad, maent yn dylanwadu ar gyfeiriad strategol yr awdurdod mewn agweddau penodol, megis addysg ôl-16 a chynllun strategol y Gymraeg mewn addysg. Mae aelodau'r Cyngor Ieuenctid yn amlygu lefel uchel o ddealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd o fewn y gwasanaethau addysg yng Ngheredigion. Maent yn hyderus wrth enghreifftio sut mae eu sylwadau wedi dylanwadu ar wella gwasanaethau.

Mae sicrhau cyfleoedd i staff ddatblygu o fewn 'Tîm Ceredigion' yn flaenoriaeth uchel i'r awdurdod. Mae trefniadau clir a thrylwyr er mwyn cefnogi a rheoli perfformiad staff, yn ogystal â sicrhau cysondeb o ran disgwyliadau. Mae'r targedau i'r staff, sy'n cael eu cyd-lunio, yn lled-fesuradwy ac maent yn alinio'n agos â blaenoriaethau o fewn cynlluniau busnes yr awdurdod. Adolygir cynnydd staff yr awdurdod yn erbyn eu targedau yn gyson. Mae'r prosesau rheoli perfformiad yn cynnwys cyfleoedd buddiol i arweinwyr ddathlu llwyddiannau, gwirio lles y rhai maent yn eu rheoli, a thrafod anghenion datblygu staff. Ar sail hyn, mae rhaglen bwrpasol o hyfforddiant wedi ei chynllunio, er nad yw effaith hir dymor yr hyfforddiant hwn bob amser yn cael ei werthuso'n llawn. Mae anogaeth gyson gan arweinwyr i staff gymryd cyfrifoldeb am eu datblygiad personol eu hunain ac mae staff yn gwerthfawrogi hyn. Er enghraifft, mae sawl aelod o'r tîm gwella ysgolion yn astudio am radd meistr ac achrediadau allanol mewn meysydd sydd o ddiddordeb iddynt. Cynigir hyfforddiant buddiol a threfniadau secondiadau defnyddiol er mwyn datblygu medrau arweinyddiaeth staff yr awdurdod a sicrhau olyniaeth. Cryfder nodedig yn y maes hwn yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau Cymraeg staff yr awdurdod a staff ysgolion.

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cyflawni ei rôl statudol i amddiffyn a diogelu plant yn dda. Mae'r gwasanaeth integredig sefydledig, sy'n cynnwys adrannau gwasanaethau cymdeithasol ac addysg, yn darparu gwasanaeth cynhwysfawr o gefnogaeth. Mae hyn yn cynnwys adnabyddiaeth a chefnogaeth gynnar i gefnogi teuluoedd bregus ynghyd ag ystod eang o wasanaethau cefnogol gwerthfawr i ymateb i anghenion plant a phobl ifanc. O ganlyniad i gyd-ddealltwriaeth gref o rolau a chyfrifoldebau, mae swyddogion a gweithwyr rheng-flaen yn cydweithio'n ddeallus a chynhyrchiol er budd plant a phobl ifanc yr awdurdod.

Ceir trefn gadarn i fforymau strategol a gweithredol sy'n ymwneud â materion diogelu ac mae'r rhychwant o gynrychiolwyr o asiantaethau perthnasol yn gryfder.

Rhoddir arweiniad clir a chefnogaeth bwrpasol i benaethiaid ac i bersonau dynodedig o fewn ysgolion gan y swyddog dynodedig ar gyfer diogelu mewn addysg, ac mae hyn yn nodwedd gref o waith yr awdurdod. Mae trefniadau gweithredu rhan 5 o Weithdrefnau Diogelu Cymru yn drylwyr. Mae prosesau recriwtio diogel yn gadarn ac mae ansawdd yr hyfforddiant diogelu a roddir i staff addysg ar bob lefel o ansawdd da iawn.

Mae'r Cyngor yn blaenoriaethu buddsoddi yn ei wasanaeth addysg ac ysgolion, yn unol â'i amcan yn ei strategaeth gorfforaethol. Er y cafwyd setliad llai na'r cyfartaledd cenedlaethol, fe wnaeth yr awdurdod anrhydeddu ei ymrwymiad i ariannu cynnydd o 3.1% i'w ysgolion.

Mae'r awdurdod lleol yn adolygu ei strwythurau ac yn cynllunio ar gyfer yr hir dymor er mwyn sicrhau gwerth am arian yn barhaus. Mae'r awdurdod wedi clustnodi arian i gyllido buddsoddiad cyfalaf yn ei isadeiledd adeiladau a thechnoleg gwybodaeth. Mae'r Cyngor wedi bod yn llwyddiannus wrth gaffael grantiau ac ailfuddsoddi derbyniadau cyfalaf.

Mae gan yr awdurdod drefniadau cynllunio a monitro cyson er mwyn cefnogi ysgolion. Wrth i'r awdurdod lleol gydnabod yr her ariannol ar gyfer cyllideb 2024/25, fe wnaethant ymgymryd â chysylltiad cynnar a holl ysgolion y sir. Cefnogwyd ysgolion yn ofalus gan yr awdurdod drwy dymor y gaeaf er mwyn iddynt gael amser i baratoi cyn i'r gyllideb gael ei therfynu. Mae cynllunio ffurfiol yn digwydd yn flynyddol ar gyfer cyllidebau ysgolion; er hyn, prin yw'r cynlluniau tymor canolig o ran cyllid ysgolion unigol sy'n cynnwys tybiaethau ar gyfer y dyfodol.

Mae'r awdurdod lleol yn cymharu ei wariant â mesuryddion cenedlaethol er mwyn sicrhau ei fod yn buddsoddi mewn addysg yn unol â'u uchelgais. Er nad yw fformwla gyllido ysgolion wedi ei hadolygu ers peth amser, caiff elfennau o gyllid ysgolion eu cymharu'n genedlaethol drwy grŵp cyllid Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru. O fewn y sir, caiff costau ysgolion eu cymharu'n anffurfiol drwy wybodaeth unigolion o fewn y tîm cyllid, ond nid oes meincnodi ffurfiol.

Mae'r cytundebau lefel gwasanaeth a ddarperir gan y sir yn cael eu defnyddio'n gyson gan ysgolion, gyda phenaethiaid ac ysgolion yn awgrymu bod yna wasanaeth o safon yn cael ei ddarparu sy'n werth am arian. Mae adrannau o fewn yr awdurdod yn cydweithio'n effeithiol, sy'n ychwanegu gwerth i'r cytundebau wrth eu cyfuno.

O ganlyniad i'r trefniadau effeithiol uchod, ac er bod yr awdurdod yn adnabod bod heriau i ddod yn y dyfodol, mae balansau ysgolion yn cymharu'n ffafriol â'r darlun cenedlaethol, gyda dim ond un ysgol mewn diffyg ar ddiwedd 2023/24.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn ymgynghori â'r awdurdod lleol ar y cwestiynau arolygu lleol i'w defnyddio yn ystod yr arolygiad, ar sail hunanwerthusiad yr awdurdod, ei gynlluniau strategol a data perthnasol sydd gan Estyn
- yn dadansoddi'r deilliannau o holiaduron agored, gan gynnwys barn dysgwyr, rhieni, staff a llywodraethwyr ysgolion, staff yr awdurdod lleol, staff y consortiwm rhanbarthol, aelodau etholedig a'r cyhoedd
- yn cynnal ymweliad rhagarweiniol â'r awdurdod lleol i gyfarfod ag ystod o bartneriaid perthnasol gwasanaethau addysg, fel cynrychiolwyr dysgwyr, penaethiaid a llywodraethwyr, ac arweinwyr o asiantaethau statudol a thrydydd sector sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cyfarfod ag arweinydd y cyngor, aelodau etholedig sy'n gyfrifol am wasanaethau addysg, aelodau etholedig sy'n gyfrifol am graffu ar wasanaethau addysg, y prif weithredwr, y cyfarwyddwr addysg, arweinwyr a rheolwyr eraill mewn gwasanaethau addysg, staff perthnasol eraill yn yr awdurdod lleol, rheolwr gyfarwyddwr y consortiwm rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion a staff perthnasol eraill o'r consortiwm rhanbarthol
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r awdurdod lleol
- yn ystyried cynlluniau strategol a gweithredol yr awdurdod lleol ar gyfer gwella
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys gwybodaeth am ddeilliannau dysgwyr, gwybodaeth am berfformiad ysgolion a lleoliadau addysg eraill, gan gynnwys gwybodaeth gan y consortiwm rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion, cofnodion o amrywiaeth o gyfarfodydd, adroddiadau a gyflwynwyd i'r cyngor neu'r swyddogaeth graffu, gwybodaeth am ddiogelu dysgwyr ac unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i wasanaethau addysg yr awdurdod lleol sydd gan Estyn

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad
- rhoi copi drafft o'r adroddiad i'r awdurdod lleol er mwyn iddo nodi unrhyw bryderon ynghylch cywirdeb ffeithiol, a gwneud diwygiadau yn ôl yr angen

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr awdurdod lleol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997, Deddf Plant 2004 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 02/09/2024